**GWNEIR Y CYTUNDEB HWN y diwrnod o fis 2019**

RHWNG

(1) **S4C** o Ganolfan S4C: Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ ("**S4C**"); a

(2) [**Cwmni]** (rhif cwmni: [ ]) o [cyfeiriad] ("**Y Cyflenwr**")

RHAGARWEINIAD

Dymuna S4C gytundebu'r Cyflenwr i ddylunio, cynllunio, sefydlu, gweithredu, dosbarthu, diweddaru a chynnal pob agwedd o'r Ap (fel y'i diffinnir isod) yn y Gymraeg fel rhan o eiddo ddigidol ehangach S4C.

FE GYTUNIR fel a ganlyn:-

1. **Diffiniadau a Dehongliad**

1.1 Yn y Cytundeb hwn, gan gynnwys y rhagymadrodd, bydd y termau canlynol â'r ystyron a nodwyd gyferbyn iddynt oni bai bod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

| | |
|---|---|
| Amserlen Waith: | yr amserlen ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau gan y Cyflenwr fel y manylir arno yn Atodlen 2; |
| Ap: | y cymhwysiad ar gyfer ffôn symudol/tabled sy'n cynnwys Meddalwedd a ddatblygwyd ar gyfer y Systemau Gweinyddu yn unol â Chynllun yr Ap a thelerau'r Cytundeb hwn; |
| Arfer Diwydiannol Da: | y lefel o sgil, gofal, gwybodaeth a rhagwelediad a ddisgwylir yn rhesymol ac yn arferol gan berson profiadol sydd wedi ei ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sydd yr un fath â, neu yn debyg i'r Gwasanaethau; |
| Canllawiau Cydymffurfiaeth: | i'r graddau bod y fath ganllawiau yn berthnasol i'r Gwasanaethau, yr holl bolisïau a chanllawiau a gyhoeddir o dro i dro ar wefan gynhyrchu S4C sef http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/ gan gynnwys Canllawiau Brand Cyw, Polisi Amddiffyn Plant, Canllawiau Iaith S4C, Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C, Hysbysiad Cydymffurfio S4C ac unrhyw ganllawiau eraill a ddarperir i'r Cyflenwr gan S4C yn ystod y Cyfnod, fel y'u hamrywir neu eu diwygir o dro i dro fel mae S4C yn ystyried yn angenrheidiol, y maent i gyd yn cael eu hymgorffori trwy hyn yn y Cytundeb trwy gyfeiriad, ac unrhyw ganllawiau cydymffurfiaeth neu dechnegol y mae dosbarthwyr trydydd parti o'r Ap yn eu cyhoeddi o dro i dro yn ystod y Cyfnod; |
| Cerrig Milltir: | y camau cymeradwyo a restrir yn Atodlen 2; |
| Codau Ffynhonnell: | codau ffynhonnell a chodau nod yr Ap; |
| Cyflenwr Newydd: | cyflenwr (ac eithrio'r Cyflenwr) a gaiff ei apwyntio gan S4C i gyflenwi'r Gwasanaethau (neu wasanaeth tebyg) fel |

| | |
|---|---|
| | olynydd i'r Cyflenwr ar derfynu'r Cytundeb neu pan mae'r Cytundeb hwn yn dod i ben; |
| Cyfnod: | cyfnod y Cytundeb hwn a fydd yn cychwyn ar y Dyddiad Effeithiol ac a fydd yn parhau trwy gydol y Cyfnod Gwirio yn amodol ar gymal 12; |
| Cyfnod Gwirio: | cyfnod o ddwy (2) flynedd yn dilyn dyddiad Lansiad yr Ap; |
| Cyfreithiau Diogelu Data: | (i) Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau a deddfwriaeth eilaidd gweithredu cenedlaethol, fel y'u hamrywir neu y'u diwygir o bryd i'w gilydd, yn y DU; ac yna (ii) unrhyw ddeddfwriaeth olynol i'r GDPR neu Ddeddf Diogelu Data 2018; ac (iii) unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data newydd cenedlaethol; |
| Cynllun yr Ap: | y cynllun a osodir yn Atodlen 1; |
| Cynnwys Annerbyniol: | unrhyw ddeunydd o natur ddifenwol, amharchus, anllad, enllibus, cableddus, neu pe byddai'n cael ei gyhoeddi y byddai'n gyfystyr â dirmyg llys, sy'n hyrwyddo trais neu weithredoedd anghyfreithlon, sy'n gwahaniaethu ar sail (er enghraifft) hil, rhyw, crefydd neu gred, anabledd, ailbennu rhyw, rhywedd, mamolaeth, neu oedran, sy'n cynnwys unrhyw feirws, mwydyn, feirws Ceffyl Pren Troea, "ysbïwedd" neu ddeunydd dinistriol arall y gellir ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n ymyrryd â neu'n cael mynediad i, newid, dileu neu ddifrodi unrhyw ffeiliau data neu feddalwedd gyfrifiadurol arall, neu sy'n rhoi mynediad i'r cyfryw ddeunydd, neu sy'n tresmasu ar hawliau unrhyw un, gan gynnwys Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd-barti neu unrhyw gyfraith berthnasol gan gynnwys y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| Cynnwys S4C: | cynnwys a roddir ar yr App gan neu ar ran S4C ac y mae S4C yn berchen ar yr hawliau angenrheidiol ynddo er mwyn galluogi gwneud y cynnwys ar gael trwy'r Ap gan gynnwys brand 'Cyw' a Marciau S4C; |
| Cynrychiolydd S4C: | **Rhodri ap Dyfrig** neu unrhyw berson arall yr hysbysir gan S4C i'r Cyflenwr yn ysgrifenedig; |
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth: | y cytundeb a osodir yn Atodlen 3; |
| Data Personol: | mae ganddo'r ystyr a roddir i'r term yn y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| Deddf: | Deddf Hawlfraint Dyluniadau a Phatentau 1988 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd; |
| Deunydd y Cyflenwr: | yr holl ddeunydd a gaiff ei greu gan y Cyflenwr (ac eithrio Meddalwedd Safonol y Cyflenwr) yn uniongyrchol wrth gyflawni'r Gwasanaethau yn yr iaith neu ieithoedd y gofynnir amdanynt gan S4C gan gynnwys testun a phob deunydd arall; |

| | |
|---|---|
| Diwrnod Busnes: | unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, neu ddydd Sul pan mae banciau clirio yn gyffredinol ar agor ar gyfer busnes; |
| DRhG: | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; |
| Dyddiad Derbyn: | y dyddiad pan fo S4C yn cadarnhau yn ysgrifenedig i'r Cyflenwr bod yr Ap wedi ei dderbyn gan S4C; |
| Dyddiad Effeithiol: | [ ] |
| Fersiwn Newydd: | unrhyw fersiwn newydd o'r Ap a a ryddheir gan y Cyflenwr yn dilyn y Dyddiad Derbyn sydd yn darparu ymarferoldeb ychwanegol a/neu well neu berfformiad gwell; |
| Force Majeure: | golyga fel y'i diffinnir yng Nghymal 17; |
| Ffi: | £[ ]; |
| GDPR: | Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol UE 2016/679; |
| Gwasanaethau: | y gwasanaethau a gyflenwir gan y Cyflenwr yn unol â gofynion y Cytundeb hwn ac a fanylir yn fwy helaeth yng nghymal 2.2; |
| Gwybodaeth Gyfrinachol: | ar y cyd, unrhyw a'r holl wybodaeth, data a medrau cyfrin o natur gyfrinachol (ym mha bynnag ffurf ac ar ba bynnag gyfrwng) sydd yn berthnasol i eiddo deallusol a/neu fusnes S4C a/neu ei Chwmnïau Teulu a/neu'r Cyflenwr sydd yn cael eu datgelu neu eu gwneud ar gael at ddibenion neu a gynhyrchir o dan y Cytundeb hwn a boed cyn, ar neu wedi'r Dyddiad Effeithiol, ynghyd â bodolaeth neu gynnwys y Cytundeb ac/neu unrhyw wybodaeth sydd wedi ei ddynodi'n gyfrinachol yn ysgrifenedig neu a ddylid ei ystyried yn gyfrinachol ac/neu unrhyw Ddata Personol; |
| Hawliau Eiddo Deallusol: | holl hawliau eiddo deallusol o ba bynnag natur trwy'r byd ac am yr holl gyfnod o unrhyw a holl amddiffyniad eiddo deallusol a roddir i'r cyfryw gan gynnwys, heb gyfyngiad, yr holl: batentau, marciau masnachol, marciau gwasanaeth, hawlfraint, dyluniadau cofrestredig ac unrhyw a holl geisiadau am gofrestru o unrhyw un o'r cyfryw le bynnag y'u gwnaethpwyd; ac unrhyw farciau masnachol, marciau gwasanaeth, dyluniadau a hawliau dylunio a hawlfraint anghofrestredig; a basau data, gwybod sut ("know how"), cyfrinachau masnachol a gwybodaeth gyfrinachol sut bynnag y mae'n codi; a meddalwedd cyfrifiadurol a chodau ffynhonnell ac unrhyw hawl neu fudd yn unrhyw un o'r uchod; |
| Hysbysiad Cydymffurfio S4C: | Hysbysiad Cydymffurfio S4C a gynhwysir ar wefan Awdurdod S4C; |
| Lansiad yr Ap: | lansiad yr Ap yn fyw i'r cyhoedd, mewn modd sydd yn foddhaol i S4C yn unol â'r Amserlen Waith; |

| | |
|---|---|
| Marciau S4C: | marciau masnachol, enwau masnachol neu logos S4C fel y'u hysbysir gan S4C i'r Cyflenwr o dro i dro; |
| Meddalwedd Pwrpasol y Cyflenwr: | unrhyw estyniadau, ddatblygiadau neu addasiadau gan y Cyflenwr o unrhyw Feddalwedd Safonol y Cyflenwr neu Feddalwedd Trydydd Parti ynghyd â'r cod ffynhonnell ac unrhyw feddalwedd a ysgrifennir, a gynhyrchir neu a ddatblygir gan y Cyflenwr yn unol â darpariaeth y Gwasanaethau; |
| Meddalwedd Safonol y Cyflenwr: | y meddalwedd sydd wedi ei ddatblygu gan y Cyflenwr cyn y Cyfnod ac sydd yn berchen i'r Cyflenwr ac sydd wedi ei restru yn Atodlen 1; |
| Meddalwedd Trydydd Parti: | yr holl feddalwedd a ddefnyddir gan y Cyflenwr (ac eithrio Meddalwedd y Cyflenwr) wrth ddarparu'r Gwasanaethau; |
| Meddalwedd y Cyflenwr: | ar y cyd Meddalwedd Safonol y Cyflenwr a Meddalwedd Pwrpasol y Cyflenwr; |
| Nam: | unrhyw wall neu nam yn yr Ap sydd yn peri i'r Ap fethu a gweithio yn unol â Chynllun yr Ap; |
| Personél Allweddol: | yr unigolion allweddol a gyflogir gan y Cyflenwr ac a restrir yng Nghynllun yr Ap; |
| Polisi Amddiffyn Plant: | polisi ysgrifenedig amddiffyn plant y Cyflenwr sydd raid iddo gydymffurfio gyda Pholisi Amddiffyn Plant S4C fel y'i gyhoeddir o dro i dro ar wefan S4C ynghyd â holl ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd perthnasol mewn grym o dro i dro; |
| Profion Derbyn yr Ap: | profion technegol a wneir gan ddosbarthwr trydydd parti yr Ap; |
| Rheoliadau: | Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd 2004; |
| Rheolwr: | [ ]; |
| Rhyddhad Newydd: | rhyddhad newydd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Ap lle mae namau blaenorol wedi eu gwirio; |
| Systemau Gweinyddu: | y system(au) gweinyddu sy'n rheoli'r dyfeisiadau y bydd yr Ap ar gael arnynt fel y gellir eu hamrywio yn ystod y Cyfnod ac fel a osodir yn Atodlen 1; a |
| Twyll: | unrhyw drosedd o dan gyfraith sy'n creu troseddau mewn perthynas a gweithredoedd twyllodrus neu o dan gyfraith gwlad mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus yn ymwneud â'r Cytundeb neu dwyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo, S4C. |

1.2 Dehonglir unrhyw gyfeiriad at unrhyw statud neu ddarpariaeth statudol i gynnwys cyfeiriad at y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno fel yr amrywir, newidir, estynnir neu'i ail-weithredir o dro i dro boed cyn neu wedi dyddiad y Cytundeb hwn ac at bob offeryn a gorchymyn a rheoliad statudol sy'n amrywio newid a/neu'n ymestyn y fath statud neu ddarpariaeth.

1.3 Oni fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir a bydd geiriau sy'n dynodi'r naill ryw yn cynnwys y llall hefyd a geiriau sy'n dynodi personau'n cynnwys corfforaethau cymdeithasau anghorfforedig a phartneriaethau.

1.4 Oni nodir fel arall bydd amser o hanfod o ran gweithredu ymrwymiadau'r Cyflenwr o dan y Cytundeb hwn.

1.5 Pwrpas penawdau cymalau'r Cytundeb hwn yw rhoi arweiniad yn unig ac ni fwriedir iddynt gyfyngu ar eiriad unrhyw gymal mewn unrhyw ffordd.

1.6 Mae'r term 'yn cynnwys' neu 'gan gynnwys' i'w ddehongli heb gyfyngiad i gyffredinolrwydd y geiriau o'i flaen.

1.7 Mae cyfeiriad at gymalau yn gyfeiriad at gymalau ac is-gymalau'r Cytundeb hwn ac mae cyfeiriad at atodlenni yn gyfeiriad at atodlenni'r Cytundeb hwn.

1.8 Mae'r term 'Ysgrifennu' yn cynnwys unrhyw fodd o ail-gynhyrchu geiriau mewn ffurf ddarllenadwy ac mewn ffurf nad yw'n ddarfodedig a bydd yn cynnwys trosglwyddiadau ffacsimili neu debyg ac e-byst.

1.9 Mae cynnwys y Cytundeb hwn yn berthnasol i holl ddiweddariadau o'r Ap (os yn ofynnol gan Gynllun yr Ap) ynghyd â datblygiad cychwynnol a chyfleu'r Ap.

2. **<u>Ymrwymiadau a Gwasanaethau</u>**

2.1 Mae S4C yn ymrwymo'r Cyflenwr i gyfleu'r Gwasanaethau i S4C trwy gydol y Cyfnod yn unol ag amodau'r Cytundeb hwn.

2.2 Bydd y Cyflenwr yn darparu'r gwasanaethau canlynol i foddhad S4C ("**y Gwasanaethau**"):

2.2.1 **Gwasanaethau Datblygu'r Ap:** Bydd y Cyflenwr yn gwneud pob peth a phob gweithred sydd yn angenrheidiol er mwyn dylunio, cynhyrchu, datblygu, adeiladu, profi a chyfleu'r Ap i S4C yn unol â Chynllun yr Ap, y Cerrig Milltir a chyfarwyddiadau rhesymol S4C o dro i dro;

2.2.2 **Dosbarthu'r Ap:** Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod yr Ap yn cael ei ddosbarthu'n unol â Chynllun yr Ap ac yn gwneud pop peth a phob gweithred sydd yn angenrheidiol i gynnal yr Ap a bydd yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig fynediad i'r Ap 24 awr y dydd yn ystod y Cyfnod yn ddarostyngedig yn unig i ddarpariaeth y Cytundeb Lefel Gwasanaeth;

2.2.3 **Cynnal a Diweddaru:** Bydd y Cyflenwr yn gwneud unrhyw newidiadau perthnasol i'r Ap, yn ôl y gofyn, er mwyn cywiro unrhyw Nam yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac er mwyn sicrhau bod yr Ap yn weithredol ar unrhyw ddiweddariad i'r Systemau Gweinyddu;

2.2.4 **Meddalwedd:** Bydd y Cyflenwr, ar ei gost a'i draul ei hun, yn caffael ar gopïau o'r holl gyfryw Feddalwedd Trydydd Parti a chreu a darparu holl gyfryw Feddalwedd y Cyflenwr sydd yn angenrheidiol ar gyfer darpariaeth briodol o'r

holl Wasanaethau o dan y Cytundeb hwn a bydd yn sicrhau bod yr holl Feddalwedd Trydydd Parti a Meddalwedd y Cyflenwr yn cydymffurfio a gofynion Cymal 4. Yn achos unrhyw Feddalwedd Trydydd Parti, bydd y Cyflenwr (oni chytunir yn bendant fel arall yn ysgrifenedig gan S4C) yn caffael y cyfryw ar y fath delerau sydd yn ei alluogi i ddarparu'r Gwasanaethau o dan y Cytundeb hwn heb gyfyngiad ac a fydd yn galluogi S4C neu ei isgontractwyr i drwyddedu'r cyfryw Feddalwedd Trydydd Parti yn uniongyrchol o'r trydydd parti hwnnw ar ddiwedd neu derfyn y Cytundeb hwn; ac

2.2.5 **Adroddiadau:** Bydd y Cyflenwr yn darparu adroddiadau yn cadarnhau gwybodaeth dienw am ddefnydd o'r Ap gan gynnwys sut y defnyddir yr Ap gan y sawl sydd wedi ei lawrlwytho, trwy gydol y Cyfnod yn unol ag Atodlen 1.

2.3 Mae'r Cyflenwr yn ymrwymo i hysbysu Cynrychiolydd S4C yn ysgrifenedig yn syth os ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm y mae'n ymddangos y gall cwblhau unrhyw garreg filltir y'i nodir yn yr Amserlen Waith gael ei ohirio y tu hwnt i'r dyddiad cwblhau sy'n berthnasol iddi. Bydd unrhyw rybudd o'r fath yn nodi'r rhesymau am unrhyw fethiant tebygol i gwrdd â'r cyfryw ddyddiad cwblhau.

3. **<u>Cynnwys yr Ap a Phrofion Derbyn.</u>**

3.1 Cyfrifoldeb y Cyflenwr fydd creu a chynllunio'r Ap yn unol â Chynllun yr Ap, y Canllawiau Cydymffurfio a thelerau'r Cytundeb hwn a bydd yn ymgynghori'n rheolaidd gyda Chynrychiolydd S4C ar bob agwedd o ddarparu'r Gwasanaethau.

3.2 Mae'r Cyflenwr yn cytuno ac yn cydnabod mai S4C fydd â rheolaeth olygyddol derfynol dros yr Ap a'i gynnwys a bydd y Cyflenwr yn cyfleu i Gynrychiolydd S4C fersiwn brawf o'r Ap yn unol â'r Amserlen Waith. Bydd ystyriaeth deg yn cael ei roi i syniadau neu awgrymiadau a gynigir gan y Cyflenwr, ond os bydd unrhyw anghydfod, bydd penderfyniad S4C yn derfynol ac yn rhwymo'r Cyflenwr. Mae'r Cyflenwr yn cytuno i gydymffurfio â gofynion S4C fel y'u hesboniwyd gan Gynrychiolydd S4C a o dro i dro.

3.3 Ni fydd y Cyflenwr yn cyhoeddi'r Ap tan iddo dderbyn cymeradwydaeth ysgrifenedig S4C.

3.4 Ni fydd y Cyflenwr yn addasu'r Ap na'r Meddalwedd nac yn newid na diwygio unrhyw ran o'u cynnwys mewn unrhyw ffordd sylweddol (ac eithrio mân addasiadau technegol a diweddaru cynnwys arferol) nac ychwanegu unrhyw ddeunydd newydd i'r Ap heb gymeradwyaeth Cynrychiolydd S4C o flaen llaw.

3.5 Bydd y Cyflenwr yn datblygu'r Ap yn unol â'r gofynion a Phrofion Derbyn yr Ap sy'n ofynnol ar gyfer cyhoeddi ar y Systemau Gweinyddu. Os bydd unrhyw Brofion Derbyn yr Ap yn methu, bydd y Cyflenwr yn gwneud addasiadau angenrheidiol ac yn ail-gyflwyno'r eitem(au) perthnasol cyn gynted ag sy'n bosib yn ymarferol yn dilyn y fath brawd (ac er mwyn galluogi Lansiad yr Ap yn unol â'r Amserlen Waith.)

3.6 Os caiff y methiant i fodloni unrhyw un o Brofion Derbyn yr Ap ei briodoli'n llwyr neu'n rhannol i'r Cyflenwr, bydd y Cyflenwr yn gyfrifol am unrhyw gostau a achoswyd i'r Cyflenwr o ganlyniad i unrhyw addasiadau angenrheidiol ac ail-gyflwyno'r eitem(au) perthnasol.

3.7 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth nid yw'r ffaith fod yr Ap wedi pasio'r holl Brofion Derbyn yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar oblygiadau'r Cyflenwr o dan Gymal 11.1.

4. **<u>Meddalwedd</u>**

4.1 Mae'r Cyflenwr yn ymrwymo i sicrhau fod yr holl Feddalwedd y Cyflenwr a Meddalwedd Trydydd Parti:-

4.1.1 yn cydymffurfio â ac yn gweithredu safonau ansawdd sy'n dderbyniol yn gyffredinol ar gyfer cymwysiadau o'r un math sydd ar gael i'r cyhoedd o bryd i'w gilydd;

4.1.2 ar gael yn fasnachol heb gyfyngiad, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad neu amodau defnydd a orfodir gan "shareware" neu feddalwedd cyfatebol;

4.1.3 wedi cael ei wirio gan y Cyflenwr o flaen llaw er mwyn sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw Gynnwys Annerbyniol;

4.1.4 yn rhydd o unrhyw raglenni anablu neu ddyfeisiadau tebyg; ac

4.1.5 yn cael ei gymeradwyo o flaen llaw yn ysgrifenedig gan S4C.

4.2 Mae'r Cyflenwr yn cytuno y bydd gan S4C bob amser yn ystod oriau gwaith arferol ac o roi rhybudd rhesymol yr hawl i archwilio'r trwyddedau ar gyfer y Meddalwedd Trydydd Parti.

4.3 Mae'r Cyflenwr yn cytuno:-

4.3.1 i ddodi ar gadw gyda S4C ar gwblhau'r Amserlen Waith gopïau dilys a chyflawn o'r Codau Ffynhonnell yn y ffurf y'u darparwyd i berchennog neu weithredwr y Systemau Gweinyddu ynghyd â chopïau o'r holl ddogfennau trwyddedau a deunydd gan gynnwys heb gyfyngiad y nodiadau rhaglen y mae S4C yn ystyried yn angenrheidiol i weithrediad pellach yr Ap; a

4.3.2 na fydd yn dinistrio unrhyw Godau Ffynhonnell neu nodiadau rhaglen sy'n ymwneud â'r Ap a Meddalwedd y Cyflenwr heb gymeradwyaeth ysgrifenedig S4C o flaen llaw, na fydd yn cael ei wrthod na'i oedi yn afresymol.

4.4 Bydd y Cyflenwr yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig os yw'r Cyflenwr yn rhyddhau Fersiwn Newydd o'r Ap yn dilyn y Dyddiad Derbyn gan nodi'r canlynol:

4.4.1 costau cyfleu a gweithredu'r Fersiwn Newydd yn unol â Chynllun yr Ap; a

4.4.2 manylion y gwahaniaethau rhwng y Fersiwn Newydd a'r Ap y'i cyflewyd i S4C o ran ymarferoldeb, perfformiad a chydnawsedd.

4.5 Nid oes unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn rhoi unrhyw oblygiadau ar S4C i dalu am unrhyw Fersiwn Newydd.

## 5. <u>Ymrwymiadau Cyffredinol ac Ymrwymiadau Staffio'r Cyflenwr</u>

5.1 Mae'r Cyflenwr yn ymrwymo gyda S4C y bydd y Gwasanaethau yn cael eu perfformio:

5.1.1 mewn modd effeithiol a diogel yn unol ag Arferion Diwydiannol Da a gan y Personél Allweddol; ac

5.1.2 yn unol â'r Canllawiau Cydymffurfiaeth a'r holl gyfreithiau a gofynion rheoleiddio sydd yn berthnasol o dro i dro i berfformiad y Gwasanaethau.

5.2 Mae'r Cyflenwr yn cytuno i gyflogi neu hurio nifer digonol o weithwyr, staff neu ymgynghorwyr (gan gynnwys rhai sydd yn siarad Cymraeg os yn berthnasol) sydd yn

angenrheidiol ar gyfer darparu'r Gwasanaethau, a bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod gan y staff lefelau priodol o gymwysterau a phrofiad ac/neu y byddant yn derbyn hyfforddiant digonol, ac yn ychwanegol, y byddant yn gweithio'r nifer o oriau sydd yn angenrheidiol i gyfleu'r Gwasanaethau yn effeithiol ac yn unol â'r Amserlen Waith.

5.3 Yn ddiragfarn i Gymal 5.2, bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod y Rheolwr yn goruchwylio darparu'r Gwasanaethau yn ystod y Cyfnod. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod fod y Rheolwr yn weithiwr allweddol ar gyfer pwrpas y Cytundeb hwn ac ni fydd y Cyflenwr yn newid y Rheolwr neu ddefnyddio unrhyw un arall i berfformio dyletswyddau'r Rheolwr heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw (na fydd yn cael ei wrthod na'i oedi yn afresymol).

5.4 Bydd y Cyflenwr yn hysbysu S4C yn syth os yw'n sylweddoli fod posibilrwydd na fydd yn gallu cyfleu'r Gwasanaethau yn unol â'r Cytundeb hwn.

6. **Talu**

6.1 Mewn cydnabyddiaeth lawn a therfynol am fod y Cyflenwr yn cydymffurfio â, a chyflawni ei ymrwymiadau yn llawn o dan y Cytundeb hwn parthed yr Ap ac am yr aseiniad a'r trwyddedau i S4C o'r Hawliau Eiddo Deallusol yn unol â darpariaethau Cymal 9, bydd S4C yn talu'r Ffi i'r Cyflenwr yn unol â'r llif arian isod:

[ ]

6.2 Bydd y Cyflenwr yn cyflwyno anfonebau yn unol â'r llif arian uchod, a bydd yn dangos TAW ar wahân ar y cyfryw anfonebau, a bydd S4C yn talu'r cyfryw anfoneb o fewn deg diwrnod ar hugain (30) o'u derbyn. Bydd pob taliad a nodir yn y llif arian uchod yn amodol ar gwblhad boddhaol y Garreg Filltir berthnasol ac ar gwblhad boddhaol o unrhyw Brofion Derbyn yr Ap a wnaed yn unol â chymal 3 ac ni fydd y Cyflenwr yn cyflwyno anfoneb cyn y dyddiad sydd yn ddyladwy ar gyfer ei chyflwyno.

6.3 Bydd gan S4C yr hawl i gadw unrhyw daliadau a fyddai fel arall yn ddyledus i'r Cyflenwr lle mae'n amau, mewn ewyllys da, nad ydyw'r Cyflenwr wedi perfformio ei oblygiadau dan y Cytundeb hwn yn gywir. Ni fydd taliad gan S4C o'r cyfan neu ran o'r anfoneb yn golygu derbyniad o gywirdeb neu ddilysrwydd yr anfoneb.

6.4 Bydd y Cyflenwr yn gyfrifol am yr holl gostau cynnal a chadw, treuliau rhedeg busnes a holl dreuliau neu gostau rhedeg busnes ategol a chostau cyffredinol ategol sydd yn deillio o gyflawni'r Gwasanaethau.

7. **Arolygu**

7.1 Bydd y Cyflenwr ar gost ei hun yn cwrdd ag S4C ar unrhyw adeg ac yn unrhyw leoliad sydd yn gyfleus i'r ddau barti yn ôl gofyn rhesymol S4C i arolygu'r materion a nodir yng nghymal 7.2 a bydd y Cyflenwr yn sicrhau presenoldeb y Rheolwr ac unrhyw weithiwr perthnasol arall yn y cyfryw gyfarfodydd.

7.2 Yn y cyfryw gyfarfodydd arolygu ac yn ddi-ragfarn i amodau'r Cytundeb hwn bydd y partïon yn arolygu'r canlynol:-

7.2.1 ansawdd dechnegol ac artistig ac ymarferoldeb yr Ap;

7.2.2 unrhyw Namau a adroddwyd ers y cyfarfod blaenorol a'r camau a gymerwyd I ddelio â'r fath Namau ac unrhyw faterion eraill sy'n codi mewn perthynas â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth;

7.2.3 canlyniadau unrhyw ddadansoddiadau dylanwad a wnaethpwyd gan S4C a/neu'r Cyflenwr mewn perthynas â'r Ap;

7.2.4 perfformiad gan y Cyflenwr o'r Gwasanaethau a'r cynnydd yng nghynhyrchu, dylunio a gweithrediad yn gyffredinol;

7.2.5 unrhyw ddulliau o addasu neu wella darpariaeth y Gwasanaethau, unrhyw addasiadau i gynllun neu gynnwys yr Ap gan roi ystyriaeth i anghenion neu ddatblygiadau technolegol neu unrhyw geisiadau am newid a wnaethpwyd gan S4C o ganlyniad i unrhyw ddadansoddiadau dylanwad; ac

7.2.6 unrhyw faterion eraill y bydd y naill barti neu'r llall am eu trafod.

7.3 Yn dilyn y cyfryw gyfarfodydd, bydd S4C a'r Cyflenwr yn rhoi ystyriaeth deg mewn ewyllys da i farn y naill a'r llall ar yr amod na fydd y cymal hwn yn effeithio ar unrhyw gymal arall yn y Cytundeb hwn lle bo gan S4C yr awdurdod terfynol mewn perthynas ag unrhyw fater ac yn yr achos hynny bydd y Cyflenwr yn dilyn cyfarwyddiadau S4C. Bydd gan S4C yr hawl hefyd i gadarnhau'r penodiad am weddill y Cyfnod ar sail y fath delerau ac amodau diwygiedig, ychwanegol neu wahanol a all gael eu cytuno rhwng y partïon (na fyddant yn cael eu hoedi na'u gwrthod yn afresymol) a'u cadarnhau yn ysgrifenedig.

## 8. **<u>Yswiriant</u>**

8.1 Bydd y Cyflenwr yn cychwyn a chynnal polisïau yswiriant gyda than-sgrifennwyr yswiriant cyfrifol sydd yn ddigonol fel sy'n ofynnol o dan gyfraith neu mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd rhagweladwy a allai godi mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cynnyrch, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, yswiriant yn erbyn llygredd i systemau eraill ac yswiriant yn erbyn gwallau a hepgoriadau gydag isafsymiau i'w cymeradwyo gan S4C ar gyfer pob achos heb eithriadau o gwbl i fod yn weithredol trwy gydol y Cyfnod a bydd yn darparu i S4C gopi o'r fath bolisïau yswiriant a thystiolaeth bod y premiymau sy'n berthnasol i'r fath bolisïau wedi eu talu.

8.2 Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, bydd y Cyflenwr trwy gydol y Cyfnod yn cynnal polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad, yswiriant atebolrwydd cynnyrch gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad, ac yswiriant yn erbyn gwallau a hepgoriadau gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad.

8.3 Bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio â thelerau, amodau a chyfyngiadau'r fath bolisïau yswiriant ac yn sicrhau taliadau amserol o bob premiwm a bod y polisïau'n cael eu cynnal mewn grym ac effaith llawn am y fath gyfnod(au) ag sy'n rhesymol.

8.4 Bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn syth o unrhyw ddigwyddiad a all arwain at unrhyw hawliad o dan unrhyw un o'r polisïau a gyfeirir atynt yng nghymal 8.1 ac 8.2 uchod.

## 9. **<u>Trwyddedu Marciau S4C</u>**

9.1 Mae S4C yn rhoi i'r Cyflenwr drwydded an-ecscliwsif, anhrosglwyddadwy, y gellir ei galw'n ôl yn ystod y Cyfnod i ddefnyddio Cynnwys S4C yn unig mewn cysylltiad â darpariaeth y Gwasanaethau ac yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn (gan gynnwys y

rhannau cyfatebol o'r Canllawiau Cydymffurfio) ac yn amodol ar y telerau a nodir yng nghymal 9.2 isod.

9.2 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu ac yn ymrwymo ag S4C na fydd:

9.2.1 yn defnyddio Cynnwys S4C heb gymeradwyaeth o flaen llaw gan Gynrychiolydd S4C;

9.2.2 yn defnyddio Cynnwys S4C mewn unrhyw fodd a fuasai, ym marn S4C, yn tueddu i ganiatáu iddo ddod yn generic, golli ei hynodrwydd, niweidio unrhyw gofrestriadau pellach o nodau masnach, gostwng gwerth masnachol Cynnwys S4C neu bod yn niweidiol yn faterol i, neu yn anghyson ag enw da, ewyllys da neu ddelwedd S4C;

9.2.3 yn defnyddio Cynnwys S4C (boed ar ei ben ei hun neu wedi ei gyfuno gydag unrhyw enw arall, nod masnach neu ddyfais) ar neu ynglŷn ag unrhyw nwyddau neu wasanaethau ag eithrio yn unol â'r hyn a nodir yn y Cytundeb heb ganiatâd penodol S4C yn ysgrifenedig o flaen llaw;

9.2.4 yn cofrestru neu geisio cofrestru unrhyw nod masnach, marc gwasanaeth, logo, enw parth neu symbol su'n union yr un peth neu yn sylweddol debyg i, neu yn cynnwys Gynnwys S4C oni chaniateir hynny yn y Cytundeb hwn;

9.2.5 yn ymwybodol yn gwneud unrhyw beth sy'n amharu ar hawliau S4C yng Nghynnwys S4C neu yn unrhyw gofrestriadau neu geisiadau sy'n gysylltiedig â Chynnwys S4C neu sy'n niweidio, gwanhau neu yn gostwng gwerth masnachol, enw da neu ewyllys da yn neu i Gynnwys S4C;

9.2.6 yn derbyn unrhyw hawliau perchnogaeth yng Nghynnwys S4C a bydd unrhyw a'r holl ewyllys da a gynhyrchir o ddefnyddio Cynnwys S4C gan y Cyflenwr dan y Cytundeb hwn yn dod i rym ('enure') yn ecsgliwsif er budd S4C;

9.2.7 yn arddel unrhyw hawl i berchnogaeth o Gynnwys S4C nac i ewyllys da neu enw da yng Nghynnwys S4C oherwydd defnydd o Gynnwys S4C gan y Cyflenwr neu fel arall; nac

9.2.8 yn ychwanegu at, dileu neu addasu mewn unrhyw ffordd neu olygu, cyfnewid, newid ac/neu gyfieithu Cynnwys S4C neu unrhyw ran ohono i unrhyw raddau neu mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw.

9.3 Os bydd y Cyflenwr yn dod yn ymwybodol o unrhyw dorri posibl ar Gynnwys S4C, gan gynnwys unrhyw beri coel ('passing off') neu gystadleuaeth annheg neu unrhyw gais i gofrestru nod masnach a allai wrthdaro â neu a allai beri dryswch gyda Chynnwys S4C, bydd y Cyflenwr yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig yn syth.

9.4 Ar ddiwedd neu ar derfyn y Cytundeb hwn, am ba reswm bynnag, bydd y Cyflenwr yn dod i ben â defnyddio Cynnwys S4C mewn perthynas â'r Gwasanaethau yn syth ac i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol yn cyfleu i S4C neu gael gwared (yn unol â gofynion S4C) ar yr holl ddeunydd yn ei feddiant neu o fewn ei reolaeth sydd yn ymwneud â neu yn gysylltiedig â Chynnwys S4C yn unol â chyfarwyddiadau S4C.

## 10. Hawliau Eiddo Deallusol

10.1 Mae’r Cyflenwr drwy hyn yn aseinio i S4C gyda theitl llawn wedi ei warantu'r holl eiddo gan gynnwys yr holl Hawliau Eiddo Deallusol a phob hawl arall o ba bynnag natur (boed wedi’u breinio yn absoliwt neu yn amodol yn awr neu yn y dyfodol) ym Meddalwedd Pwrpasol y Cyflenwr a’r Ap, Cynllun yr Ap a Deunydd y Cyflenwr I DDAL y cyfryw ar gyfer S4C, ei holynwyr, aseiniaid a’i thrwyddedeion yn llwyr ar gyfer holl gyfnod y cyfryw hawliau y mae’r Cyflenwr yn gallu aseinio i S4C ynghyd ac unrhyw adnewyddu, rifersiwn, diwygio neu ymestyniad ohonynt.

10.2 Mewn cydnabyddiaeth am y taliadau a wneir yn sgil y Cytundeb hwn mae’r Cyflenwr hefyd yn rhoi trwydded anegsgliwsif, di-freindal, di-droi-nol, am byth i ddefnyddio Meddalwedd Safonol y Cyflenwr a’r Meddalwedd Trydydd Parti mewn perthynas â’r Ap.

10.3 Mae S4C yn rhoi i’r Cyflenwr drwydded an-ecsgliwsif y gellir ei galw’n ôl yn ystod y Cyfnod ym mhob hawl ym Meddalwedd y Cyflenwr a’r Ap sy’n angenrheidiol er mwyn galluogi’r Cyflenwr i gyflawni ei ddylestwyddau o dan y Cytundeb hwn yn unig.

10.4 Mae’r Cyflenwr yn ymrwymo i weithredu pob ac unrhyw weithred a dogfen (gan gynnwys i erlyn neu amddiffyn unrhyw achos cyfreithiol) ac i baratoi a darparu unrhyw a phob dogfen yn y fath fodd ac yn y fath leoliadau ag y myn S4C yn ôl ei disgresiwn llwyr er mwyn amddiffyn, perffeithio neu weithredu unrhyw hawliau a roddwyd i S4C yn unol â’r Cytundeb hwn CYN BELLED Â BOD S4C yn ad-dalu costau rhesymol y Cyflenwr o wneud hynny. Fel sicrwydd y bydd y Cyflenwr yn cyflawni ei oblygiadau, os digwydd i'r Cyflenwr fethu â chyflawni yn dilyn rhybudd o bedwar diwrnod ar ddeg (14) gan S4C i weithredu unrhyw ddogfen neu gyflawni unrhyw weithred yn unol â’r cymal hwn, bydd gan S4C yr hawl i wneud hynny yn lle ac yn enw'r Cyflenwr ac fel twrnai cyfreithiol penodedig y Cyflenwr ac mae’r Cyflenwr yn ymrwymo ac yn gwarantu y bydd yn cadarnhau a dilysu a bod yn rhwymedig gan unrhyw a phob gweithred S4C yn sgil y cymal hwn a bydd y cyfryw awdurdod a phenodiad yn dod i rym fel penodiad di-alw'n-ôl yn sgil adran 4 Deddf Pwerau Atwrnai 1971 ('Powers of Attorney Act 1971').

10.5 Mae’r Cyflenwr trwy hyn yn gwarantu a chynrychioli i S4C bod pob un person sydd wedi cyfrannu neu sy’n cyfrannu at y Gwasanaethau wedi ildio yn ddi-alw’n ôl pob hawl y mae neu y gall fod ganddynt hawl iddo o dan adrannau 77, 80, 84 ac 85 o’r Ddeddf ac unrhyw hawliau moesol arall y mae neu y gall fod ganddynt hawl iddynt o dan unrhyw ddeddfwriaeth sy'n bodoli o dro i dro mewn unrhyw ran o’r byd mewn perthynas â’r Ap, Meddalwedd y Cyflenwr, Meddalwedd Trydydd Parti a Deunydd y Cyflenwr o dan y Cytundeb hwn.

10.6 Mae’r Cyflenwr trwy hyn yn gwarantu ac yn cynrychioli i S4C y bydd yr holl gynnwys a chyfraniadau sydd yn ymddangos ar yr Ap (ac eithrio Cynnwys S4C) wedi eu “prynu allan”/”bought out” yn llwyr ymhob cyfrwng sydd yn hysbys yn awr neu a ddyfeisir yn y dyfodol ac na fydd unrhyw daliadau pellach yn daladwy gan S4C i unrhyw barti mewn perthynas â’r Ap uwchlaw’r Ffi.

## 11. **Oblygiadau, Gwarantiadau ac Indemniad**

11.1 Mae’r Cyflenwr yn cynrychioli, gwarantu ac yn ymrwymo:-

11.1.1 bod yr Ap, Meddalwedd y Cyflenwr a Deunydd y Cyflenwr o’r safon dechnegol ac artistig uchaf ac y bydd yn cydymffurfio ym mhob ffordd â Chynllun yr Ap a'r Canllawiau Cydymffurfiaeth;

11.1.2 bydd yn cyflawni’r Gwasanaethau yn ffyddlon ac yn gydwybodol ac yn unol â’r Canllawiau Cydymffurfiaeth a phob cyfraith berthnasol;

11.1.3 bydd yn cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau rhesymol S4C ynglŷn â'r Gwasanaethau;

11.1.4 mai'r Cyflenwr yw unig 'awdur' cyntaf yr Ap, holl Ddeunydd y Cyflenwr a Meddalwedd y Cyflenwr yn unol â'r diffiniad yn adran 9(2) o'r Ddeddf, a bydd pob un person sydd yn cyfrannu neu sydd wedi cyfrannu at y cyfryw ddeunyddiau neu eitemau yn 'berson cymwys' o fewn ystyr adran 154 y Ddeddf;

11.1.5 yn ddarostyngedig yn unig i Gymal 10, mai ef yw unig berchennog absoliwt, dilyffethair cyfreithlon a llesiannol yr holl Hawliau Eiddo Deallusol yn yr Ap, Meddalwedd y Cyflenwr a Deunydd y Cyflenwr a'r holl hawliau a aseiniwyd i S4C yn sgil y Cytundeb hwn (ond ag eithrio'r Meddalwedd Trydydd Parti) ac nid yw wedi aseinio, arwystlo, is-drwyddedu nac fel arall wedi llyffetheirio unrhyw un o'r cyfryw hawliau mewn unrhyw fodd;

11.1.6 bydd gan S4C yr hawl i fynnu fod y Cyflenwr yn ychwanegu at, dileu, peidio â defnyddio a/neu newid mewn unrhyw ffordd a/neu olygu, cyfnewid, addasu a/neu gyfieithu unrhyw elfen o'r Ap neu unrhyw ran ohonynt i unrhyw raddau ac mewn unrhyw fodd ar gais ysgrifenedig rhesymol;

11.1.7 ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn gorfodi S4C i ddechrau neu i barhau i ddefnyddio'r holl neu unrhyw ran o'r Ap. Os digwydd i S4C yn ei ddisgresiwn absoliwt, ei hun, ddewis peidio â defnyddio'r Ap ni fydd gan y Cyflenwr yr hawl i hawlio unrhyw iawndal yn erbyn S4C (ac eithrio'r Ffi neu'r rhan berthnasol ohono);

11.1.8 na fydd unrhyw beth yn yr Ap, Meddalwedd y Cyflenwr, y Meddalwedd Trydydd Parti na Deunydd y Cyflenwr yn amharu ar unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti a bod y Cyflenwr wedi sicrhau yn ysgrifenedig pob trwydded, cliriad, ildiad, caniatâd a rhyddhad angenrheidiol ar gyfer galluogi ymelwa digyfyngiad (boed trwy werthiant neu fel arall) o'r Ap heb daliad pellach;

11.1.9 na fydd unrhyw beth a gynhwysir yn yr Ap, Meddalwedd y Cyflenwr, y Meddalwedd Trydydd Parti na Deunydd y Cyflenwr yn cynnwys nac yn rhoi mynediad i unrhyw Gynnwys Annerbyniol;

11.1.10 ei fod yn rhydd i arwyddo'r Cytundeb hwn ac nid yw wedi gwneud unrhyw drefniant a all wrthdaro â'r Cytundeb hwn ac yn benodol nad yw wedi rhoi ac ni fydd yn cael gwared ar neu'n rhoi i unrhyw drydydd parti unrhyw hawliau ym Meddalwedd y Cyflenwr neu'r Ap a fyddai neu a allai fod yn anghyson â neu'n tarfu ar yr hawliau a roddir i neu yr honnir eu bod yn cael eu rhoi i S4C o dan y Cytundeb hwn ac ymhellach na fydd ar gyfleu'r Ap nac ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfnod unrhyw hawliad lien arwystl morgais neu unrhyw lyffethair o unrhyw natur yn effeithio ar Feddalwedd y Cyflenwr, yr Ap neu unrhyw ran ohono neu ar unrhyw Ddeunydd y Cyflenwr;

11.1.11 bod y wybodaeth, y datganiadau a'r materion ffeithiol eraill a gofnodwyd ar bapur yn ysgrifenedig i S4C gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â neu'n tarddu o'i ymateb i'r Cais am Bris yn gywir a chyflawn ymhob agwedd o sylwedd ar y dyddiad y cyflwynwyd hwy i S4C, ac y bydd y Cyflenwr yn hysbysu S4C yn syth os na fydd gwybodaeth o'r fath yn gywir ac yn parhau i fod yn gywir a chyflawn;

11.1.12 nid oes unrhyw hawliad yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gyfreitha, cyflafareddiad nac achosion gweinyddol ar droed ar hyn o bryd nac,

hyd eithaf gwybodaeth y Cyflenwr, yn yr arfaeth neu wedi eu bygwth yn erbyn y Cyflenwr neu ei asedau sydd yn arwyddocaol ac a fydd yn cael neu sydd yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu'r Cyflenwr i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

11.1.13 bydd yn hysbysu S4C yn syth os bydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw achosion, hawliadau neu gyflafareddiad o'r fath, boed yn digwydd, ar droed neu o dan fygythiad ac, a rei gost ei hun, yn cymryd y fath gamau ag y gall S4C ei fynnu yn rhesymol er mwyn lliniaru a/neu ddileu canlyniadau'r fath;

11.1.14 na fydd unrhyw Ryddhad Newydd na Fersiwn Newydd yn effeithio'n andwyol ar berfformiad a/neu weithrediad yr Ap na Meddalwedd y Cyflenwr;

11.1.15 na fydd yn gwneud unrhyw drefniadau ar gyfer nawdd na defnydd o hysbysebion ar yr Ap neu unrhyw elfen ohonynt heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw;

11.1.16 wrth ymdrin â phlant wrth ddarparu'r Gwasanaethau bydd egwyddorion amddiffyn plant o'r pwys mwyaf a bydd Polisi Amddiffyn Plant yn cael ei weithredu bob amser; ac

11.1.17 wrth ddarparu'r Gwasanaethau bydd yn cydymffurfio â'r Cyfreithiau Diogelu Data. Heb amharu ar gyffredinolrwydd y gwarant hwn bydd y Cyflenwr yn trafod a chytuno gyda S4C sut fydd yn rheoli'r goblygiadau diogelu data o weithredu'r Ap cyn gweithredu unrhyw gynlluniau sy'n cynnwys casglu data.

11.2 Bydd y Cyflenwr yn indemnio a phob amser yn cadw S4C, ei olynwyr a'i aseineion wedi eu hindemnio yn llwyr ar alw rhag ac yn erbyn pob colled (gan gynnwys unrhyw golled ariannol neu golled economaidd arall) treuliau, hawliau, gofynion, gweithrediadau, achosion, costau (gan gynnwys costau cyfreithiol ar sail indemniad), iawndal neu daliadau a ddioddefwyd neu a godwyd neu a roddwyd, iawndal a gytunwyd neu unrhyw atebolrwydd o ba fath bynnag sy'n codi ym mha ffordd bynnag o ganlyniad i unrhyw dorri ar neu fethiant i ufuddhau gan y Cyflenwr i bob un neu unrhyw un o'r cytundebau, ymrwymiadau neu warantau a gynhwysir yn y Cytundeb hwn neu o ganlyniad i unrhyw weithred esgeulus neu gamgymeriad neu anwaith ar ran y Cyflenwr (gan gynnwys er mwyn osgoi amheuaeth, mewn perthynas â gorddolenni ("hyperlink") y Cyflenwr).

12. **<u>Terfynu</u>**

12.1 Bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn ar rybudd o ddim llai na thri deg (30) niwrnod i'r Cyflenwr.

12.2 Yn ddi-ragfarn i unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd gan unrhyw barti yn erbyn unrhyw barti arall, bydd gan y naill barti'r hawl i derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r llall os:-

12.2.1 yw'r parti arall yn torri ar unrhyw amod neu ymgymeriad yn y Cytundeb hwn ac naill ai (a) nid yw'n bosibl i gywiro'r fath doriad neu (b) y mae'n bosib gwella'r toriad ac mae'r parti wedi methu â chywiro'r toriad o fewn cyfnod o saith (7) niwrnod o dderbyn rhybudd yn rhoi manylion o'r toriad neu unrhyw gyfnod cywiro arall y cyfeirir ato mewn man arall yn y Cytundeb hwn;

12.2.2 yw'r parti arall:

12.2.2.1 yn cael derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol wedi ei apwyntio neu mae'n pasio penderfyniad ar gyfer dirwyn i ben (ac eithrio ar gyfer pwrpas cynllun o uniad diddyled neu ail-luniad) neu os bydd llys gydag awdurdod priodol yn gwneud gorchymyn i'r perwyl hynny; neu

12.2.2.2 yn destun gorchymyn gweinyddu neu ei fod yn gwneud trefniant gwirfoddol gyda'i gredydwyr.

12.3 Bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr:

12.3.1 os bydd y Cyflenwr, ei weithwyr neu staff yn euog o gamymddwyn neu esgeulustod dybryd yn ystod perfformio ei/eu hoblygiadau o dan y Cytundeb hwn; a/neu

12.3.2 os oes newid yn rheolaeth (fel y diffinnir 'rheolaeth' yn adran 1124 Deddf Trethi Corfforaethol 2010) y Cyflenwr.

13. **Canlyniadau Terfynu**

13.1 Yn ddi-ragfarn i hawliau cyfreithiol y partïon bydd canlyniadau terfynu'r Cytundeb hwn fel y rhestrir isod:-

13.1.1 bydd dyletswydd S4C i dalu'r Cyflenwr wedi ei chyfyngu i'r fath daliadau ag sydd yn ddyledus am y Gwasanaethau sydd wedi cael eu darparu mewn gwirionedd ac yn gywir gan y Cyflenwr wrth fodd rhesymol S4C yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn hyd at y dyddiad terfynu;

13.1.2 ni fydd gan y Cyflenwr unrhyw hawl, drwydded neu ganiatâd yn dilyn y dyddiad terfynu i ymdrin â'r Ap mewn unrhyw ffordd neu ag unrhyw ddeunyddiau cyffyrddadwy a grëwyd yn ystod darparu neu sydd yn deillio o'r Gwasanaethau nac i'w cadw yn ei feddiant neu dan ei oruchwyliaeth, ac eithrio er mwyn trosglwyddo'r cyfryw eitemau a'r holl ddogfennau a'r deunyddiau a gynhyrchwyd hyd at ddyddiad y terfynu i S4C cyn gynted ag sydd yn rhesymol ymarferol (ac eithrio i'r graddau fod unrhyw wybodaeth a/neu ddeunydd i gael ei gynnal yn ôl y gyfraith, neu yn ôl rheoliad neu unrhyw awdurdod cyfreithiol, llywodraethol neu reoleiddio cymwys, ac yn y fath achos, bydd y Cyflenwr yn cadw'r cyfryw yn unig ar gyfer y fath bwrpas ar yr amod ei fod yn rhoi copïau llawn i S4C); a

13.1.3 bydd pob trwydded a roddwyd i'r Cyflenwr o dan gymalau 9 a 10.3 yn dod i ben yn syth a bydd y Cyflenwr yn dychwelyd i S4C yn syth unrhyw a phob deunydd sy'n ymgorffori Cynnwys S4C.

13.2 Yn ychwanegol i delerau cymal 13.1, ar derfynu'r Cytundeb hwn am ba bynnag reswm ac am gyfnod o chwe mis wedi hynny bydd y Cyflenwr yn rhoi cymorth i S4C, os gofyn iddo wneud hynny, i hwyluso parhad y Gwasanaethau gan S4C ac/neu Gyflenwr Newydd (fel sy'n briodol).

13.3 Oni ddarperir yn wahanol, bydd terfynu'r Cytundeb hwn yn ddi-ragfarn i aseiniad a thrwydded yr hawliau gan y Cyflenwr i S4C yn unol â chymal 10 a'r gwarantau a'r ymrwymiadau a roddwyd gan unrhyw un o'r partïon a'r holl ddyletswyddau ac indemniadau eraill sydd wedi codi neu sydd wedi eu rhoi cyn terfynu'r Cytundeb, y bydd pob un ohonynt yn parhau mewn grym llawn ac effaith yn dilyn y terfyniad serch bod terfynu wedi digwydd.

14. **Cyfrinachedd**

14.1 Bydd y Cyflenwr a S4C yn trin yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a dderbynir gan y parti arall o dan y Cytundeb hwn yn gyfrinachol. Ni fydd y naill barti na'r llall, heb ganiatâd ysgrifenedig y parti arall o flaen llaw, yn datgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw berson neu ddefnyddio'r cyfryw ac eithrio ar gyfer pwrpas y Cytundeb hwn.

14.2 Nid yw Cymal 14.1 yn gwahardd datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol i:

14.2.1 gyflogedigion y parti sy'n derbyn y wybodaeth (gan gynnwys asiantau ac isgontractwyr caniataëdig) sydd angen y wybodaeth;

14.2.2 archwilwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol y parti derbyn, adran Gyllid a Thollau EM ac unrhyw barti arall sydd â hawl statudol neu reoleiddiol i ofyn am a derbyn y wybodaeth (gan gynnwys o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000); nac

14.2.3 i berson y mae aseiniad wedi ei ganiatáu o dan Gymal 15.

14.3 Nid yw Cymal 14.1 yn berthnasol i wybodaeth y gall y parti sy'n derbyn yr wybodaeth brofi, trwy gyfeirio at dystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth arall:

14.3.1 ei fod yn ei feddiant yn gywir cyn dechrau'r trafodaethau a arweiniodd at y Cytundeb hwn;

14.3.2 sydd eisoes yn wybodaeth gyhoeddus neu sydd yn dod yn wybodaeth gyhoeddus erbyn dyddiad yn y dyfodol (ac eithrio o ganlyniad i dorri'r cymal hwn);

14.3.3 ei fod wedi ei dderbyn gan drydydd parti sydd ddim o dan oblygiad o gyfrinachedd ynglŷn â'r wybodaeth; a/neu

14.3.4 ei fod wedi ei ddatblygu yn annibynnol a heb fynediad i, neu ddefnydd neu wybodaeth o'r Wybodaeth Gyfrinachol.

14.4 Bydd y naill barti a'r llall yn gwneud ymdrechion rhesymol i sicrhau fod unrhyw un a gyfeirir ato yng Nghymal 14.2 yn ymwybodol, cyn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol, ei fod yn gyfrinachol a bod ganddynt ddyletswydd i berchennog y wybodaeth i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

14.5 Ni fydd y Cyflenwr yn gwneud unrhyw gyhoeddiad ynglŷn â'r Cytundeb hwn ac ni fydd yn datgelu ei fodolaeth na'i dermau heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw.

14.6 Bydd yr oblygiadau yn y Cymal 14 hwn yn aros mewn llawn grym ac effaith hyd yn oed os terfynir y Cytundeb hwn.

15. **Aseiniad**

15.1 Mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Cyflenwr ac ni fydd y Cyflenwr yn aseinio'r budd nac unrhyw hawl sy'n deillio ohono heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw, a fydd gan yr hawl i wrthod y cyfryw ganiatâd yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ei hun.

15.2 Ni fydd y Cyflenwr yn rhoi i unrhyw barti arall unrhyw hawl, trwydded, cydsyniad neu ganiatâd a all neu a allasai darfu ar unrhyw un o'r hawliau neu fudd a roddwyd i S4C.

15.3 Bydd gan S4C yr hawl i aseinio budd a chyfrifoldeb y Cytundeb hwn yn llwyr.

16. **Rhybuddion**

16.1 Y cyfeiriad a roddir i'r ddau barti yn y Cytundeb hwn fydd y cyfeiriad dilys ar gyfer cyflwyno rhybuddion hyd nes y bydd y naill barti yn hysbysu'r llall yn ysgrifenedig o gyfeiriad newydd yn y Deyrnas Unedig.

16.2 Ystyrir bod pob rhybudd a gyflwynir yn unol â darpariaethau cymal 16.1, wedi ei roi neu ei gyflwyno'n ddilys, yn achos rhybudd wedi ei gyflwyno â llaw, wedi iddo gael ei gyflwyno yng nghyfeiriad y sawl sydd i'w dderbyn neu os bydd wedi ei gyflwyno i swyddfa'r post, a'r swm cywir wedi ei dalu ymlaen llaw er mwyn ei anfon gyda'r post dosbarth cyntaf, ar yr ail (2) Ddiwrnod Busnes ar ôl ei bostio.

16.3 Ni ddehonglir neu ystyrir unrhyw beth yn y cymal 16 hwn fel cytundeb ar ran S4C i dderbyn cyflwyno unrhyw achosion cyfreithiol trwy drosglwyddiad ffacs neu e-bost.

17. **Force Majeure**

17.1 At ddibenion y Cytundeb hwn, bydd "Force Majeure" yn golygu digwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth y partïon sydd yn atal dilyn neu gyflawni gan y naill barti neu'r llall o'i ymrwymiadau o dan y Cytundeb hwn gan gynnwys tân, llifogydd, damwain na ellir ei hosgoi, argyfwng cenedlaethol, terfysg, anghydfod cyffredinol, gweithred ddwyfol (acts of God), mabwysiad unrhyw Ddeddf Seneddol (neu unrhyw awdurdod cyfansoddiadol cyfreithiol) neu unrhyw ddigwyddiad sy'n deillio o neu y gellir ei briodoli i ryfel neu wrthdaro arfog (gan gynnwys unrhyw gyfyngu a orfodir gan y Llywodraeth ar wasanaethau teledu cenedlaethol, rhanbarthol neu leol neu ariannu'r gwasanaethau hynny) neu unrhyw ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth y partïon a ddim oherwydd unrhyw ddiffyg doethineb neu ragwelediad rhesymol gan y naill barti neu'r llall.

17.2 Os digwydd gweithred o Force Majeure bydd y parti yr effeithir arno yn hysbysu'r llall yn ysgrifenedig yn ddi-oed ac ar yr amod bod unrhyw anallu i ddilyn neu gyflawni unrhyw ymrwymiad o dan y Cytundeb hwn yn deillio yn unig o'r weithred honno ystyrir bod gweithredu'r ymrwymiadau yr effeithir arnynt wedi eu gohirio o ddyddiad y cyfryw rybudd hyd nes bydd y cyfryw anallu yn cael ei ddileu neu hyd nes y terfynir y Cytundeb hwn neu hyd nes bydd cymeryd drosodd. Mae'r partïon yn cytuno i ddefnyddio pob ymdrech rhesymol i leihau a chwtogi unrhyw gyfnod o oedi a'r holl gostau a threuliau a gyfyd gan ddigwyddiad o Force Majeure. Yn ystod unrhyw gyfnod o oedi o'r fath ni fydd S4C o dan unrhyw ddyletswydd i dalu'r Cyflenwr heblaw parthed ymrwymiadau cytundebol y Cyflenwr na all y Cyflenwr eu hosgoi nac eu gohirio ac y mae'r Cyflenwr wedi ymrwymo iddynt yn unol â gofynion y Cytundeb hwn.

17.3 Os bydd cwblhad unrhyw garreg filltir a nodir yn yr Amserlen Waith yn cael ei oedi yn sylweddol y tu hwnt i'r dyddiad perthnasol i'r cyfryw garreg filltir oherwydd digwyddiad o Force Majeure, gall S4C gymryd a mynnu bod y Cyflenwr yn cymryd unrhyw gamau y bydd S4C yn ystyried yn briodol er mwyn cwblhau'r cyfryw garreg filltir a/neu leihau'r cyfnod o oedi a/neu golled ariannol sy'n deillio ohono gan gynnwys (ond nid fel cyfyngiad) terfynu'r Cytundeb hwn.

18. **Diogelu Data [*i'w ddiweddaru yn dilyn gwobrwyo'r cais llwyddiannus*]**

18.1 Mae gan S4C yr hawl i brosesu'r holl Ddata Personol a ddarperir gan y Cyflenwr i S4C mewn cysylltiad â darpariaeth y Gwasanaethau yn unol â'r Cyfreithiau Diogelu Data a'r defnydd a wneir gan S4C o'r Ap, Meddalwedd y Cyflenwr, Meddalwedd Trydydd Parti a Deunydd y Cyflenwr. Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod ganddo sail gyfreithiol briodol er mwyn rhannu'r Data Personol gyda S4C at y diben hwn. Bydd yr holl Ddata Personol

a fydd yn cael ei ddarparu i S4C yn cael ei brosesu yn unol â pholisi diogelu data S4C sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

18.2 Bydd y ddau barti yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Cyfreithiau Diogelu Data. Mae'r cymal 18.2 hwn yn ychwanegol i, ac nid yw'n lleddfu, disodli na chael gwared ar ddyletswydd unrhyw barti o dan y Cyfreithiau Diogelu Data.

18.3 Mae'r partïon yn cydnabod, ar gyfer pwrpas y Cyfreithiau Diogelu Data, mai S4C yw'r rheolwr data (*Data Controller*) a'r Cyflenwr yw'r prosesydd data (*Data Processor*) (fel y diffinnir *Data Controller* a *Data Processor* yn y Cyfreithiau Diogelu Data). Mae Atodlen 4 yn gosod sgôp, natur a phwrpas y prosesu gan y Cyflenwr, hyd y prosesu a'r mathau o ddata personol a chategorïau o Oddrych Data (*Data Subject*).

18.4 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 18.2, bydd y Cyflenwr, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir yn gysylltiedig â pherfformiad gan y Cyflenwr o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn:

18.4.1 prosesu'r Data Personol ar gyfarwyddyd ysgrifenedig S4C yn unig oni bai ei bod hi'n ofynnol i'r Cyflenwr brosesu Data Personol o dan gyfreithiau unrhyw aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu o dan gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol i'r Cyflenwr ("y Cyfreithiau Perthnasol"). Lle bo'r Cyflenwr yn dibynnu ar gyfreithiau aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu gyfraith yr Undeb Ewropeaidd fel sail i brosesu Data Personol, bydd y Cyflenwr yn hysbysu S4C o hyn yn syth cyn gweithredu'r prosesu sy'n ofynnol gan y Cyfreithiau Perthnasol oni bai bod y Cyfreithiau Perthnasol hynny'n gwahardd y Cyflenwr rhag hysbysu S4C;

18.4.2 sicrhau bod ganddo mewn lle fesurau technegol a sefydliadol addas, sydd wedi eu hadolygu a'u cymeradwyo gan S4C, er mwyn diogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon o'r Data Personol a rhag colled damweiniol neu ddinistrio, neu niwed i'r Data Personol, sy'n briodol i'r niwed a allai ddeillio o'r prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu golled damweiniol, ddinistrio neu niwed, a natur y data i'w ddiogelu, gan roi ystyriaeth i gyflwr datblygiad technolegol a'r gost o weithredu unrhyw fesurau (gall y mesurau hynny gynnwys, lle'n briodol, anonymeiddio ac encryptio'r Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch ei systemau a gwasanaethau, gan sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad i'r Data Personol mewn modd amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol a fabwysiadwyd ganddo yn rheolaidd);

18.4.3 sicrhau bod unrhyw bersonél sydd â mynediad i ac/neu sy'n prosesu Data Personol o dan ddyletswydd i gadw'r Data Personol yn gyfrinachol, eu bod yn ddibynadwy ac yn deall dyletswyddau cytundebol y Cyflenwr i S4C;

18.4.4 peidio â throsglwyddo unrhyw Ddata Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni bai ei fod wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw;

18.4.5 rhoi cymorth i S4C, heb dâl, i ymateb i unrhyw gais gan oddrych data ac wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau o dan y Cyfreithiau Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch, hysbysiadau torri (*breach*), asesiadau effaith, ac ymgynghoriadau gydag awdurdodau goruchwylio neu reoleiddwyr;

18.4.6 hysbysu S4C heb oedi gormodol ac heb fod yn hwyrach nac o fewn 24 awr i ddod yn ymwybodol o doriad Data Personol (*data breach*);

18.4.7 ar gyfarwyddyd ysgrifenedig gan S4C, dileu neu ddychwelyd Data Personol a chopïau ohono i S4C ar derfynu'r Cytundeb;

18.4.8 gadw cofnodion a gwybodaeth cyflawn a chywir i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r cymal 18.4 hwn ac i ganiatáu archwiliadau gan S4C neu archwiliwr dynodedig S4C;

18.4.9 apwyntio swyddog diogelu data os yw'n ofynnol iddo wneud hynny o dan y Cyfreithiau Diogelu Data neu ar gais S4C.

18.5 Nid yw S4C yn caniatáu i'r Cyflenwr apwyntio unrhyw brosesydd trydydd parti o Ddata Personol o dan y Cytundeb hwn.

18.6 Gall S4C, ar unrhyw adeg ar roi dim llai na 30 diwrnod o rybudd, amrywio'r cymal 18 hwn gan ei amnewid ag unrhyw gymalau safonol rheolwr i brosesydd perthnasol neu delerau tebyg sy'n ffurfio rhan o gynllun ardystio perthnasol (a fydd yn weithredol unwaith y byddant wedi eu hamnewid trwy atodiad i'r Cytundeb hwn).

19. **<u>Deddf Rhyddid Gwybodaeth</u>**

19.1 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod S4C yn gorff cyhoeddus sydd yn ddarostyngedig i ofynion y DRhG a'r Rheoliadau a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithio ag S4C i alluogi S4C i gydymffurfio â'i dyletswyddau oddi tanynt ac, yn y cyswllt hwn, bydd y Cyflenwr yn:

19.1.1 darparu copi o'r holl wybodaeth berthnasol yn ei feddiant neu o fewn ei rym i S4C yn y ffurf mae ei angen ar S4C; a

19.1.2 darparu'r holl gymorth angenrheidiol y bydd S4C yn gofyn amdano'n rhesymol i alluogi S4C i ymateb i gais am wybodaeth cyn pen yr amser cydymffurfio a bennir yn adran 10 y DRhG neu reoliad 5 y Rheoliadau

ar yr amod bod S4C yn rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol i'r Cyflenwr ymlaen llaw (a chaiff rhesymoldeb y rhybudd ei farnu yng nghyd-destun yr amserlen statudol ar gyfer darparu'r wybodaeth).

19.2 Bydd S4C yn gyfrifol am bennu os yw'r wybodaeth:

19.2.1 wedi'i heithrio o'i datgelu yn unol â darpariaethau DRhG neu'r Rheoliadau; neu

19.2.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac ni fydd y Cyflenwr yn ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif i gais am wybodaeth oni bai y caiff ei awdurdodi yn benodol gan S4C i wneud hynny ar ran S4C.

19.3 Mae'r Cyflenwr yn cydnabod y gall S4C gael ei gorfodi dan DRhG, neu'r Rheoliadau, i ddatgelu gwybodaeth neu y gall benderfynu bod cydymffurfio â chais penodol am wybodaeth yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw eithriad perthnasol. Bydd S4C yn ymgynghori â'r Cyflenwr pan fo hynny'n ymarferol ac yn ystyried ei farn. Pan fo barn y Cyflenwr yn mynd yn groes i'r cyngor cyfreithiol y mae S4C wedi'i gael, ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn atal S4C rhag gweithredu yn unol â'r cyngor cyfreithiol a gafwyd ganddo.

19.4 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir tra'n cyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn neu sydd yn gysylltiedig â'r Cytundeb hwn, yn

cael ei chadw ar gyfer ei datgelu a bydd yn caniatáu S4C i archwilio'r cyfryw wybodaeth ar gais S4C o bryd i'w gilydd.

20. **Atal Llygredigaeth a Thwyll**

20.1 Ni fydd y Cyflenwr yn cynnig neu roi, neu'n cytuno i gynnig neu roi, i S4C neu i unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud, peidio â gwneud, neu am fod wedi gwneud neu wedi peidio â gwneud, unrhyw weithred amhriodol mewn perthynas â sicrhau neu weithredu'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth neu anffafriaeth tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb o'r fath.

20.2 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu nag ydyw wedi talu comisiwn neu wedi cytuno i dalu comisiwn i S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall mewn perthynas â'r Cytundeb.

20.3 Bydd y Cyflenwr yn cymryd pob cam rhesymol i atal Twyll gan y Cyflenwr ac/neu ei staff (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, aelodau, cyfarwyddwyr) mewn perthynas ag arian a dderbynnir gan S4C a bydd yn hysbysu S4C ar unwaith os oes ganddo reswm i amau fod unrhyw Dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

20.4 Os bydd y Cyflenwr, ei staff neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Cyflenwr, yn ymddwyn mewn modd a waherddir gan gymalau 20.1 neu 20.2 uchod ac/neu yn cymryd rhan mewn Twyll mewn perthynas â'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C, gall S4C:

20.4.1 derfynu'r Cytundeb ac adennill gan y Cyflenwr unrhyw golled a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i'r terfyniad gan gynnwys unrhyw gostau rhesymol i S4C o ganlyniad i wneud trefniadau eraill ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaethau ac unrhyw wariant ychwanegol dilynol i S4C drwy weddill y Cyfnod; neu

20.4.2 adennill yn llwyr gan y Cyflenwr unrhyw golled arall a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i dorri'r fath gymalau.

21. **Dehongliad**

21.1 Bydd darpariaethau'r Cytundeb hwn yn weithredol parthed pob rhan o ddarpariaeth y Gwasanaethau gan gynnwys unrhyw waith sydd wedi ei gwblhau cyn arwyddo'r Cytundeb hwn.

21.2 Cytunir bod y Cyflenwr yn ymrwymo i'r Cytundeb hwn ac yn ymgymryd â'i ddyletswyddau fel contractwr annibynnol a does dim yn y Cytundeb hwn sy'n awgrymu bod unrhyw fath o bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng S4C a'r Cyflenwr, ac ni fydd y naill barti na'r llall yn honni ei fod yn gweithredu fel asiant ar ran y llall oni bai bod hynny'n cael ei nodi yn benodol yn y Cytundeb hwn.

21.3 Ni fydd ildiad gan unrhyw un o'r partïon o unrhyw dorri ar unrhyw rai o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn cael ei ddehongli fel ildiad o unrhyw dor-cytundeb cynharach neu hwyrach nac yn ildiad o unrhyw delerau eraill.

21.4 Os bydd Llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, neu'n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na all ei gweithredu, yna bydd cymaint ag sy'n angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei ddileu o'r Cytundeb hwn, a'i wneud yn aneffeithiol, a cyn belled ag y bo hynny'n bosibl

heb newid y darpariaethau sydd yn weddill yn y Cytundeb hwn ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw amgylchiadau eraill nac ar ddilysrwydd na gweithredu'r Cytundeb hwn.

21.5 Nid yw'r Cytundeb hwn yn creu neu'n breinio unrhyw hawliau dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd-Bartïon) 1999 y gellir eu gweithredu gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r Cytundeb hwn.

21.6 Dehonglir y Cytundeb hwn fel cytundeb a wnaed yng Nghymru ac sy'n ddarostyngedig i gyfreithiau Cymru a Lloegr a'i fod yn ymgorffori'r holl delerau ac amodau a gytunwyd rhwng y partïon ac ni fydd yn cael ei newid ar wahân i drwy gytundeb ysgrifenedig cyfreithiol.

# ATODLEN 1

## CYNLLUN YR AP

***[I'w gwblhau yn dilyn gwobrwyo'r cais llwyddiannus]***

## ATODLEN 2

## AMSERLEN WAITH

***[I'w gwblhau yn dilyn gwobrwyo'r cais llwyddiannus]***

## ATODLEN 3

## CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (y **"CLG"**) hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb ac yn gosod allan y lefelau gwasanaeth sydd wedi eu cytuno ar gyfer datrys Namau sydd yn codi o'r defnydd o'r Ap a'r strwythur yn ystod y Cyfnod Gwirio.

1. **Diffiniadau a Dehongliadau**

Yn y CLG hwn:

1.1 mae gan y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir drwy hyn (gan gynnwys yn y paragraff agoriadol uchod) yr un ystyr ag a ddiffinnir yn y Cytundeb. Yn ychwanegol, bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol:

| | |
|---|---|
| **"Adroddiad Nam"** | fel y'i disgrifir ym mharagraff 3.1, y drefn a ddilynir gan S4C i hysbysu'r Cyflenwr o Nam; |
| **"Amseroedd Datrys Nam"** | fel y nodir ym mharagraff 5, y cyfnod amser a gytunwyd gyda'r Cyflenwr sydd yn berthnasol i'r Cyflenwr ddatrys y Nam; |
| **"Awr Fusnes"** | (i) o safbwynt Namau sydd wedi eu penodi gan S4C yn Lefel Blaenoriaeth 1 - awr rhwng 9:00am a 10:00pm GTM neu BST (fel sydd yn briodol) yn ystod unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn; a<br><br>(ii) o safbwynt Namau eraill – awr rhwng 9:00am a 5:15pm GMT neu BST (fel sydd yn briodol) yn ystod unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn<br><br>neu unrhyw gyfryw oriau eraill y gall S4C, wedi ymgynghori â'r Cyflenwr, eu mynnu; |
| **"Datrysiad Dros Dro"** | datrysiad dros dro i Nam sydd yn galluogi'r Ap i barhau i weithio mor normal ag sydd yn ymarferol a gall Datrysiadau Dros Dro gynnwys prosesau gweithredol a nodwyd gan y Cyflenwr sydd yn osgoi'r Nam sydd yn effeithio gweithrediad arferol yr Ap hyd nes y cyflëir Rhyddhad Newydd; |
| **"Datrysiad Nam"** | datrys y Nam gan y Cyflenwr yn unol â pharagraff 5; |
| **"Lefel Blaenoriaeth"** | fel y nodir ym mharagraff 4, categoreiddio'r Nam drwy briodoli lefel blaenoriaeth iddo; |
| **"Llinell Gymorth"** | yr ystyr a roddir iddo ym mharagraff 3.1; |
| **"Trwsiad Chwilen"** | un ai addasiad neu ychwanegiad sydd, pan wedi ei wneud neu ei ychwanegu i'r Ap, yn cywiro Nam neu ddull gweithredu neu ddull arferol o weithio, sydd, o edrych arno yng ngweithrediad rheolaidd yr Ap, yn dileu effaith ymarferol niweidiol y Nam |

| | |
|---|---|
| | ar y defnyddiwr terfynol; a |
| "**Ymholiadau**" | ymholiadau ynglŷn â'r Ap nad ydynt yn cael eu hateb yn foddhaol, neu o gwbl, gan unrhyw ddogfen hyfforddi a roddir gan y Cyflenwr i S4C o dan y Cytundeb (ond yn eithrio pob trafodaeth rhwng y Cyflenwr a S4C sydd yn digwydd yn ystod ymchwil i'r Nam, rheoli neu ddatrys unrhyw Nam neu ddadansoddiad tuedd diweddarach neu adolygiad o Namau wedi eu datrys); |

1.2 mae cyfeiriadau at baragraffau yn gyfeiriadau at baragraffau yn y CLG hwn;

1.3 bydd yr unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb;

1.4 mae'r penawdau er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn cyfyngu ar ddehongliad y CLG hwn; ac

1.5 mae'r geiriau "yn cynnwys" a "gan gynnwys" i'w dehongli heb gyfyngiad.

## 2. Gwasanaethau

2.1 Yn ystod y Cyfnod Gwirio, bydd y Cyflenwr yn cyflenwi'r ymrwymiadau lefel gwasanaeth ynglŷn â hysbysu Nam, categoreiddio'r Nam a datrys y Nam fel ym mharagraffau 3 i 5 isod.

2.2 Bydd y Cyflenwr yn perfformio ei oblygiadau yn unol â'r CLG hwn yn unol â'r lefelau gwasanaeth a gytunwyd, ond mae S4C yn cydnabod na fydd y Cyflenwr yn atebol am unrhyw oedi ym mherfformiad ei oblygiadau o dan y CLG hwn os yw'r oedi wedi ei achosi gan ddiffyg S4C i gyd-fynd â'i oblygiadau o dan y CLG hwn.

2.3 Mae gan y Cyflenwr oblygiad i ddarparu'r lefelau gwasanaeth a osodir yn y CLG hwn ynglŷn â phob Fersiwn Newydd o'r Ap fel y'i datblygir neu y'i rhyddheir gan y Cyflenwr yn ystod y Cyfnod Gwirio. Ni fydd y Cyflenwr yn ystod unrhyw amser yn ystod y Cyfnod Gwirio yn peidio â chefnogi unrhyw fersiwn flaenorol o'r Ap neu ran ohoni y mae S4C yn parhau i'w defnyddio.

## 3. Hysbysu Nam

3.1 Bydd y Cyflenwr yn ystod y Cyfnod Gwirio yn gweithredu gwasanaeth hysbysiad nam ar gyfer galluogi S4C i hysbysu unrhyw Nam trwy ffonio [ ] yn ystod Oriau Busnes ar [ ] ("y **Llinell Gymorth**"), gydag e-bost wedi hynny yn cadarnhau i [ ].

3.2 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod gan y Llinell Gymorth adnoddau digonol o safbwynt personél sydd wedi eu hyfforddi yn gywir er mwyn cydymffurfio â'i oblygiadau o dan y CLG hwn.

3.3 Er mwyn galluogi'r Cyflenwr i asesu a dehongli'r Nam a phriodoli Lefel o Flaenoriaeth iddo, bydd S4C yn cynnwys ym mhob Adroddiad Nam:

4.3.1 enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn o bwynt cysylltu S4C ar gyfer hysbysu'r Nam,;

4.3.2 disgrifiad llawn a manylion o natur y Nam; a

4.3.3 Y Lefel Blaenoriaeth yr ystyrir yn berthnasol i'r Nam.

3.4 Ar amser cyflwyno Adroddiad Nam, bydd S4C lle bo hynny'n bosib yn rhoi i'r Cyflenwr unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol y bydd y Cyflenwr yn gofyn amdano'n rhesymol i gynorthwyo'r Cyflenwr i gydymffurfio â'i oblygiadau o dan y CLG hwn. Yn ychwanegol, bydd S4C yn cadarnhau unrhyw allweddair neu rif adnabod a ddarperir gan y Cyflenwr oherwydd rhesymau diogelwch.

## 4. Amseroedd Categoreiddio Nam a Phriodoli Lefel Blaenoriaeth

4.1 Bydd pob Adroddiad Nam yn cael ei gategoreiddio yn unol â Lefel Blaenoriaeth yn unol â'r tabl isod. S4C fydd ymhob achos yn penderfynu ar Lefel Blaenoriaeth y Nam.

| **Lefel Blaenoriaeth** | **Nam** |
|---|---|
| 1. | Unrhyw un o'r canlynol:<br>• Unrhyw ddigwyddiad sydd yn peri i'r Ap beidio a gweithio'n llwyr; neu<br>• Unrhyw fater a all arwain at dor-cyfraith neu dorri ar unrhyw godau neu ganllawiau Ofcom neu reolau arall |
| 2. | Unrhyw un o'r canlynol:<br>• Diraddiad yng ngweithrediad yr Ap er enghraifft elfennau penodol ddim yn gweithio. |
| 3. | Unrhyw Nam sydd yn golygu fod priodweddau a/neu weithrediad meddalwedd yr Ap ddim yn gweithio fel yr adroddwyd ond yn achosi effaith lleiaf posibl ar weithrediad cyfan gwbl yr Ap. |

4.2 Bydd gan S4C yr hawl i dderbyn cefnogaeth resymol ac i wneud, a derbyn ateb i Ymholiadau yn ystod y Cyfnod Gwirio. Bydd y Cyflenwr yn defnyddio pob ymdrech rhesymol i ymateb i'r fath Ymholiadau o fewn pedair awr ar hugain o'i dderbyn.

## 5. Datrys Nam ac Amseroedd Datrys Nam

5.1 Bydd y Cyflenwr yn defnyddio ei ymdrechion gorau i ymateb i bob Nam a gofnodir o fewn yr amseroedd datrys nam y cyfeirir atynt isod.

| **Lefel Blaenoriaeth** | **Amser ymateb** | **Amser Datrys** |
|---|---|---|
| 1. | Hanner Awr Fusnes | Un Awr Fusnes |
| 2. | Un Awr Fusnes | Tair Awr Fusnes, gydag adroddiad cynnydd pob Awr Fusnes |
| 3. | Un Awr Fusnes | Tri Diwrnod Busnes, gydag adroddiad cynnydd pob Diwrnod Busnes |

Bydd y Cyflenwr yn darparu rhif ffôn argyfwng i S4C i alluogi S4C i adrodd Nam y tu allan i Oriau Busnes. Bydd y fath rif yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, megis Cynnwys Annerbyniol yn ymddangos ar yr Ap neu faterion eraill a all effeithio'n ddifrifol ar fusnes neu enw da S4C.

5.2 Yr Amseroedd Datrys a osodir ym mharagraff 5.1 uchod yw'r amseroedd datrys perthnasol ar ddyddiad arwyddo'r Cytundeb hwn. Bydd gan S4C yr hawl i ail ddosbarthu'r Amseroedd Datrys gyda chaniatâd y Cyflenwr (na fydd yn cael ei ddal yn ôl na'i oedi yn afresymol) yn sgil newid yn nifer y defnyddwyr neu newid blaenoriaethau drwy roi o leiaf ugain (20) Diwrnod Busnes o rybudd i'r Cyflenwr yn manylu'r amserlen newydd gyfatebol. Bydd mesur yr Amser Datrys yn dechrau o'r pwynt lle bydd yr alwad ffôn neu e-bost cyfatebol yn cael ei derbyn gan y Cyflenwr a bydd yn terfynu pan fo S4C yn ei barn resymol wedi derbyn cadarnhad boddhaol Datrysiad Nam penodol.

5.3 Bydd y Cyflenwr o fewn yr Amser Datrys Nam cyfatebol yn darparu Datrysiad Nam drwy un a'i:

5.3.1 ymgymryd â'r holl waith cywiro angenrheidiol i ddatrys y Nam (neu, os cytunir gyda S4C, drwy gynghori S4C fel y gall ymgymryd y fath waith cywiro a all fod yn bosibl i ddatrys y Nam ei hun); neu

5.3.2 lle'n briodol drwy ddarparu Trwsiad Chwilen i gywiro a datrys y Nam.

5.4 Os nad yw'r Cyflenwr yn gallu darparu Datrysiad Nam yn unol â pharagraff 5.3 uchod, bydd yn hytrach yn darparu Datrysiad Dros Dro o fewn yr Amser Datrys Nam cyfatebol. Bydd y Cyflenwr, ymhob achos lle mae'n darparu Datrysiad Dros Dro yn hytrach na Datrysiad Nam, yn defnyddio ac yn parhau i ddefnyddio ei ymdrechion gorau i ddarparu Datrysiad Nam.

5.5 Lle na all y Cyflenwr gywiro neu ddatrys y Nam o fewn yr Amser Datrys y Nam cyfatebol, bydd y Cyflenwr, o fewn 3 awr o ddiwedd yr Amser Datrys y Nam perthnasol, yn darparu i S4C gynllun sydd yn amlinellu sut y bydd y Cyflenwr yn ymdrin ag a chywiro'r Nam ynghyd ag amcangyfrif o'r amser y bydd yn cymryd i wneud hynny.

**ATODLEN 4**

**PROSESU DATA**

***[I’w gwblhau yn dilyn gwobrwyo’r cais llwyddiannus]***

1. Prosesu gan y Cyflenwr

1.1 Sgôp

1.2 Natur

1.3 Pwrpas y prosesu

1.4 Hyd y prosesu

2. Math o ddata personol

3. Categorïau o oddrych data

YN DYST i hyn y mae cynrychiolwyr awdurdodedig y partïon wedi arwyddo'r Cytundeb hwn y diwrnod a'r flwyddyn a nodwyd ar frig y Cytundeb hwn.

ARWYDDWYD dros ac ar ran **S4C**

...................................................

Arwyddwyd fel **Gweithred** dros ac ar ran **Y CYFLENWR**

Llofnod ...............................................................

Enw ....................................................................

ym mhresenoldeb .................................................. (Tyst)

Enw ....................................................................

Cyfeiriad ..............................................................

Swydd ..................................................................